monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2016**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Gwener, 16 Rhagfyr 2016**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**AELODAU'R CABINET YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir G. Burrows, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, P.A.D. Hobson and P. Murphy

**AELODAU ETHOLEDIG ERAILL YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir D. Batrouni, R. Harris and S. Howarth

**SWYDDOGION YN BRESENNOL**

| Eitem Rhif | Title | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **2** | Datganiadau o Fuddiant | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Datganodd y Cynghorydd Sir P.A. Fox fuddiant personol, di-ragfarn i God Ymddygiad yr Aelodau oherwydd roedd wedi cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd CMC².<br><br>Datganodd y Cynghorydd Sir R.J.W. Greenland fuddiant personol, di-ragfarn i God Ymddygiad yr Aelodau oherwydd roedd wedi cael ei benodi'n Gyfarwyddwr CMC² gan y Cyngor. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4a** | Cynnig Ailstrwythuro Cyflogres a Chefnogaeth Adnoddau Dynol | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Mae'r Cabinet yn cymeradwyo'r ailstrwythuro arfaethedig a amlinellir yn Atodiad 2, a fydd yn darparu gwasanaeth gweithrediadol y gyflogres/Adnoddau Dynol gydag ychydig o wydnwch a gallu datblygu cymedrol, sydd ei angen i gyflwyno agweddau o raglen waith gwasanaethau pobl, sy'n gysylltiedig â datblygiad y sefydliad cyfan, fel y cytunwyd eisoes gan y Cyngor.<br><br>Mae aelodau'n cytuno i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer cost rhan o'r flwyddyn, sef tua 25k, gan ddibynnu ar yr amserlen o roi popeth ar waith, sy'n gysylltiedig â'r ailstrwythuro a argymhellir a gan gydnabod pwysau blwyddyn lawn o'r strwythur diwygiedig yn rownd cyllideb 17/18. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4b** | Effeithlonrwydd Gwasanaethau'r Cyngor - Diweddariad Chwarter 2 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad hwn i helpu gyda'u monitro a gwerthuso parhaus o effeithlonrwydd gwasanaethau ac i ba raddau y maen nhw'n cyfrannu at flaenoriaethau'r cyngor o addysgu plant, cefnogaeth i bobl agored i niwed, menter a chreu swyddi a chynnal gwasanaethau lleol hygyrch. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad hwn i adnabod unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd i yrru gwelliannau, gan sicrhau bod gwasanaethau mor effeithlon ac effeithiol â phosib yng nghyd-destun adnoddau cyfredol. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4c** | Sylfaen Treth Gyngor 2017/18 a Materion Cysylltiedig | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth) (Cymru) 1995, y swm a gyfrifwyd gan y Cyngor fel ei Sylfaen Treth ar gyda 2017/18 yw £45,537.71 ac fe osodwyd y Gyfradd Gasglu ar 99.0%.<br><br>Ni fydd unrhyw Benderfyniad Arbennig yn datgan Cyfraddau Draenio fel Treuliau Arbennig yn cael ei wneud.<br><br>Ni fydd unrhyw dreuliau a aethpwyd iddynt gan y Cyngor wrth berfformio mewn rhan o'i ardal, swyddogaeth a berfformir mewn man arall yn ei ardal gan Gyngor Cymunedol, yn cael ei drin fel traul arbennig at ddibenion Adran 35 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.<br><br>Bod gosod y Dreth Gyngor yn parhau i fod yn swyddogaeth o'r Cyngor llawn |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4d** | Adran 106 - Adroddiad GRIP 3 Magwyr | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cyngor yn parhau i gomisiynu rhan 1 a 2 o broses GRIP 3, (prosiect 97362) ar gyfer llwybr newydd i orsaf drenau Magwyr am gyfanswm o £62,352 gan ddefnyddio ariannu o weddill Adran 106 o Lôn Greenmoor, cyfraniad Magwyr (£32,346) ynghyd â chyfraniadau ariannol o Gyngor Cymunedol Magwyr a Gwyndy (£10,000), y Gronfa Railfuture (£10,000) a Grŵp Rheilffordd lleol Magwyr (£1,500).<br><br>Y dylid ychwanegu £12,000 i god cyllideb 97362 i fodloni'r diffyg a nodwyd yn yr ariannu ar gyfer rhan 2 o broses GRIP 3 ac amcangyfrifir bydd y cyfraniad hwn yn cynnwys treuliau ymgynghori ychwanegol o £3,944. Bod y costau hyn yn mynd i gael eu hariannu gan gyfraniad cyfatebol o weddill Adran 106 sydd dan ofal y Cyngor o ddatblygiad Gorllewin Magwyr (Kingfisher Rise) (Cod Cyllid N579);<br><br>Os yw Llywodraeth Cymru yn cytuno i ad-dalu'r ariannu ar gyfer rhan o GRIP 3, neu'r cyfan, yna dylai'r cyllid a nodwyd yn 2.1 uchod gael ei gadw wrth gefn i gefnogi cyfnodau pellach o broses GRIP ar gyfer y llwybr arfaethedig newydd i orsaf Magwyr, heb yr angen i gyfeirio yn ôl i'r Cabinet;<br><br>Y dylid diffinio'r ardal o fudd ar gyfer defnyddio gweddill y cyllid hamdden oddi ar y safle o Gytundeb Kingfisher Rise S106 (£219,710) fel "ffin weinyddol Cyngor Cymunedol Magwyr a Gwyndy". |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4e** | Gwasanaeth Cymorth | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Unigol - Gweithredu Arfaethedig Trefniadau Contractiol Diwygiedig | | | Mae'r Cabinet yn cymeradwyo creu'r swyddi canlynol ar Fand D o fewn y Gwasanaeth Cefnogaeth Unigol:<br><br>• 7 X 7 awr<br>• 6 X 14 awr<br>• 1 X 21 awr<br>• 1 X 28 awr |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4f** | Amgueddfeydd Sir Fynwy - Cynllun Trosiant a Blaen-gynlluns | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet:<br>• Yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion Adolygiad Gwasanaethau Diwylliannol Amion, yn benodol yr argymhellion allweddol yn ymwneud ag Amgueddfeydd Sir Fynwy (Atodiad Un);<br>• Yn cymeradwyo Cynllun Amgueddfeydd Sir Fynwy 2017-2022 (Atodiad Dau) a'r Siart Trosiant cysylltiedig yn dynodi'r ymagwedd gam wrth gam at gyflwyno (Atodiad Tri);<br>• Yn cymeradwyo canoli'r gwasanaeth i gynnwys strwythur tîm canolog newydd (manylion i ddilyn yn adroddiad ailstrwythuro Menter Mawrth 2017); cydlyniad cyllidebau a chyfleoedd i gynhyrchu incwm; wedi'i adolygu ac yn gyson gydag oriau agor diwrnod cyfan a rhoi polisi gweithio unigol ar waith gydag amddiffyniadau priodol;<br>• Yn derbyn ceisiadau yn y dyfodol o achosion busnes unigol gan alluogi cyflwyniad llawn o'r Cynllun at y Dyfodol. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4g** | Diweddariad Y Prentis a Diweddariad CMC2 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet:<br>• Yn derbyn diweddariad llawn ar weithgareddau Y Prentis;<br>• Yn cymeradwyo diddymiad CMC²;<br>• Yn cytuno i adnewyddu'r ddyled sy'n ddyledus i'r Cyngor at ddibenion casglu;<br>• Yn sgil y symudiadau uchod, yn cytuno i basio perchnogaeth o'r Prentis yn swyddogol o CMC² i Gyngor Sir Fynwy. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4h** | Sefydlu Swyddfa Rhaglen Digidol | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Sefydlu Swyddfa Rhaglen Ddigidol trwy ailstrwythuro'r Tîm Prosiectau Digidol cyfredol er mwyn creu'r rolau a'r gweithgareddau priodol sydd eu hangen er mwyn dangos yr enillion mwyaf i'r Cyngor a'r gymuned.<br><br>Creu dwy swydd ychwanegol gyfwerth ag amser llawn i gefnogi ac atgyfnerthu gallu o fewn Swyddfa'r Rhaglen Digidol, sydd angen:<br>a) Buddsoddiad net ychwanegol o £52,000 o 17-18 ymlaen.<br>b) Buddsoddiad untro o £20,500 ar gyfer 16-17, wedi'i gyllido gan Gronfeydd Wrth Gefn Trawsnewid TGCh.<br><br>Cael mynediad at swm unigol o £100,000 o Gronfeydd Wrth Gefn Trawsnewid |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | TGCh i alluogi datblygu meddalwedd sy'n cysylltu ein rhyngwynebau gwasanaethau i gwsmeriaid gyda'r systemau sy'n cefnogi ein gwasanaethau a swyddogaethau craidd. Bydd hyn yn caniatáu i wasanaethau fod yn fwy ymatebol i anghenion, galw a disgwyliadau cwsmeriaid.<br><br>Sicrhau £50,000 ychwanegol yn rheolaidd o 17-18 ymlaen i ddarparu'r adnoddau ar gyfer diweddariadau rheolaidd i'r gweinydd, adnewyddu offer a gwaith cynnal a chadw hanfodol o fewn SRS wrth i isadeiledd ac offer gyrraedd diwedd ei oes defnyddiol yn raddol.<br>To secure a further recurrent £50,000 from 17-18 onwards to provide the resource for ongoing server updates, refresh and essential maintenance within SRS as infrastructure and equipment progressively reaches the end of its useful life. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |